Mehefin2019 Rhifyn 145

# NewsLine

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
www.caerffili.gov.uk

















# #TîmCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd

**Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili ar daith i drawsnewid. Mae angen i ni drawsnewid ein ffordd o weithio er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol ein cymuned, ac i fodloni'r heriau ariannol sylweddol sy'n ein hwynebu.**

Cafodd strategaeth fawr newydd o'r enw ***#TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd*** ei chymeradwyo gan gabinet y cyngor yn gynt yn y mis, ac mae'n nodi'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r newidiadau hyn dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Dywedodd arweinydd y cyngor, sef y Cynghorydd Dave Poole, "Rydym yn darparu dros 800 o wasanaethau allweddol i bob rhan o'r gymuned, o'r crud i'r bedd, ond mae'r pwysau sy'n ein hwynebu yn golygu bod angen i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn addasu a ffynnu."

"Mae'r her sydd o'n blaenau yn un sylweddol, ond mae'r cyfleoedd ar gyfer addasu ac ail-lunio'r cyngor - a'r fwrdeistref sirol yn ei chyfanrwydd - hyd yn oed yn fwy. Rhaid i'n taith drawsnewid ddigwydd ar y cyflymder a'r raddfa gywir, a'r egwyddor graidd sy'n sail i bopeth a wnawn yw **'Calon Gymdeithasol a Phen Masnachol**.'

"Rhaid i ni fod yn feiddgar ac yn ddewr. Rhaid i ni allu rhagweld cyfleoedd ar gyfer y dyfodol a bod yn barod i fanteisio arnynt yn llawn er lles ein preswylwyr," ychwanegodd Christina Harrhy y Prif Weithredwr Dros Dro.


#TîmCaerffili
YN WELL GYDA'N GILYDD
Model gweithredu newydd "awdurdod cyfan" er mwyn sicrhau Bwrdeistref Sirol wydn yn Nghaerffili ar gyfer y dyfodol
TRAFODAETH CAERFFILI
THE CAERPHILLY CONVERSATION

*Gweler tudalen **2** a **3** i ddysgu mwy. . . .*

Mae'r cyngor yn brandio'r rhaglen drawsnewid uchelgeisiol hon fel ***#TîmCaerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd.*** Mae hyn yn adlewyrchu'r ethos tîm rydym yn ei ddatblygu o fewn y sefydliad, yn ogystal â chyfleu ein hymdrechion i weithio gyda phreswylwyr, busnesau, asiantaethau partner a rhanddeiliaid allweddol eraill i wneud gwahaniaeth.




*Y Cyng. Dave Poole a Christina Harrhy.*

# #TîmCaerffili - Helpwch ni i lunio eich dyfodol CHI

**Mae'r cyngor yn cychwyn rhaglen drawsnewid fawr, ac rydym ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl ymuno â'n hymdrechion ar y cyd fel *#TîmCaerffili* i'n helpu i lywio'r ffordd y byddwn yn cyflwyno ein gwasanaethau yn y dyfodol.**

***Bydd rhai o'r meysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys:***

- ***Blaenoriaethu gwasanaethau i fodloni anghenion preswylwyr.***
- ***Ystyried sut gallwn fod yn fwy effeithlon o ran busnes.***
- ***Ymchwilio i gyfleoedd am ragor o gydweithio.***
- ***Gwell ffocws ar gwsmeriaid.***
- ***Mwy o bwyslais ar wasanaethau digidol.***
- ***Chwilio am fwy o gyfleoedd masnachol.***




## ARLOESI

Mae angen i ni herio'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau a chroesawu technolegau newydd i wella effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian. Byddwn yn dysgu oddi wrth arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a byddwn yn barod i gymryd risgiau a reolir yn effeithiol. Hefyd, caiff staff eu hannog i archwilio ffyrdd amgen o weithio a chroesawu arloesedd.

## DIGIDOL YN GYNTAF

Mae'r cyngor yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol i wella cyflwyno gwasanaethau. Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd i awtomeiddio lle bynnag y bydd hynny'n briodol, a byddwn yn ceisio gwella profiad cwsmeriaid pan fyddant yn rhyngweithio â'r cyngor. Wedi dweud hynny, bydd angen i ni ystyried rhannau'r gymuned na allant gael mynediad i wasanaethau digidol, felly byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu dull cytbwys.

## MASNACHEIDDIO

Mae ein harwyddair newydd, sef Calon Gymdeithasol a Phen Masnachol, wrth wraidd ein rhaglen drawsnewid. Mae hyn yn cydnabod ein hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac anghenion ein dinasyddion ond, hefyd, mae'n arddangos ein hawydd i archwilio cyfleoedd masnachol lle bo'n briodol, i gynhyrchu incwm ychwanegol i'w ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

## CYDWEITHIO

Byddwn yn archwilio'r potensial ar gyfer cyfleoedd newydd i gydweithio â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, lle bydd buddion diriaethol ar gyfer ein cymunedau a/neu gyfle i ostwng costau. Er enghraifft, mae'r cyngor wrthi'n gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Heddlu ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfannau Cymunedol ar draws y fwrdeistref sirol.

## ADOLYGU GWASANAETHAU

Byddwn yn cyflwyno rhaglen strwythuredig o adolygiadau a fydd yn gwerthuso'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac yn cael eu darparu yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian. Bydd adolygiadau o wasanaethau hefyd yn rhoi cyfle i gynhyrchu rhagor o arbedion ariannol.

## YMGYSYLLTU CYMUNEDOL

Nod ein rhaglen drawsnewid ***#TimCaerffili*** yw ail-lunio'r cyngor ar gyfer y dyfodol. Rhaid i ni wneud pethau mewn ffordd wahanol i ddiogelu y gwasanaethau sy'n ofynnol ac yn werthfawr. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol yn rhan hanfodol o'r agenda drawsnewid, a byddwn yn cyflawni hyn gyda'n cymunedau trwy 'Sgwrs Caerffili' lle bydd preswylwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan.

Mae'n glir y bydd angen i ni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol os ydym ni eisiau diogelu gwasanaethau'r rheng flaen rhag effaith lawn toriadau cyllid a bodloni anghenion cynyddol ein cymunedau.

### *Cadwch lygad amdanom!*

***Bydd llawer o waith yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i helpu ail-lunio siâp y cyngor wrth i ni ddechrau ar daith drawsnewidiol, ac mae'n bwysig bod gan breswylwyr ran allweddol yn y broses hon.***

*Am ragor o wybodaeth, ewch i:*
***www.caerffili.gov.uk/tîmcaerffili***






**Dros y 3 blynedd nesaf byddwn yn dechrau ail-lunio ein cymunedau ar draws bwrdeistref sirol Caerffili trwy raglen drawsnewid, a fydd yn cynnwys: -**



Cyflwyno cynnig gwasanaeth cyhoeddus 'siop-un-stop' integredig wedi'i leoli o fewn calon ein cymunedau, drwy ddarparu **hybiau integredig**, wedi'u lleoli'n strategol, gan wella ein hymgysylltiad a'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd.

Gweithredu'r **Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir** i godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa ar gyfleoedd addysgol, lleoliadau a phrofiadau o ansawdd uchel.






Dechrau ail gam y rhaglen **Ysgolion yr 21ain Ganrif**, gan ddarparu **£110miliwn** o gyfleusterau addysgol newydd.


Cyflawni **Strategaeth Ddigidol** y cyngor sy'n dod i'r amlwg drwy 'agor y drws blaen digidol' a chyflwyno rhaglen drawsnewid ddigidol eang sy'n trawsnewid pob agwedd ar ddarparu gwasanaeth.



Darparu **Canolfan newydd i Blant**, a fydd yn ganolfan ragoriaeth 'o'r radd flaenaf 'sy'n darparu gofal seibiant a gwasanaethau therapiwtig ar gyfer ein plant bregus a'u teuluoedd.



Parhau i gyflwyno'r **Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol**, gan ddarparu dull cynaliadwy at ddarpariaeth hamdden a gweithgaredd corfforol.



Cwblhau rhaglen gwella ffisegol **£261miliwn** i'n stoc tai drwy gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Bydd hyn yn cael ei wella ymhellach gyda rhaglen adeiladu newydd gyffrous ac arloesol.

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Rhaglen gyffrous o **fuddsoddiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** i alluogi twf a chyfle ar draws y fwrdeistref sirol, sy'n alinio a gosod yn gadarn gyda dyheadau economaidd Cytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ariannol drwy ddull **buddsoddiad sy'n seiliedig ar risg** wedi'i reoli i alluogi cyflwyno'r rhaglen.

Sefydlir trefniadau llywodraethu a rheoli rhaglenni cadarn i sicrhau bod **cerrig milltir allweddol** yn cael eu cytuno i gefnogi cyflwyniad y prosiectau strategol allweddol hyn yn llwyddiannus.

# Oeddech chi'n gwybod? Yn arbennig ar gyfer Addysg

**Un o flaenoriaethau allweddol y cyngor yw gwella safonau mewn addysg a chodi lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion.**

**Mae llawer o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i gyflawni gwelliannau ar draws y fwrdeistref sirol ac mae miliynau o bunnoedd hefyd wedi cael eu buddsoddi mewn datblygiadau ysgolion newydd a gwaith adnewyddu.**

## Isod mae rhai ffeithiau a ffigyrau allweddol am addysg ar draws y fwrdeistref sirol:

### Presenoldeb Ysgol

Presenoldeb o **94%** mewn ysgolion uwchradd.
Presenoldeb o **95.2%** mewn ysgolion cynradd.

### Ceisiadau gan rieni am Gynnig Gofal Plant

Ceisiadau gan rieni am **Gynnig Gofal Plant** wedi cynyddu o **429** (17/18) i **1,486** (18/19).

Cynilion ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio wedi cynyddu **£104 mil** (2018) i **£274 mil** (2019).

### Gwasanaeth Addysg i Oedolion

Ers mis Medi 2018, mae'r gwasanaeth wedi helpu dros **500** o ddysgwyr i ennill cymwysterau galwedigaethol achrededig. Mae **350** o ddysgwyr hefyd wedi cofrestru ar gyrsiau Sgiliau Hanfodol, gyda **225** wedi cyflawni achrediad hyd yma yn y flwyddyn academaidd hon.

### Derbyniadau Ysgolion

**Derbyniadau Ysgolion** - rhoddwyd lle i **BOB** disgybl sy'n byw yn nalgylch eu hysgol a oedd wedi gwneud cais erbyn y dyddiad cau.

### Gwasanaethau Llyfrgelloedd

Ystyrir ein **Gwasanaethau Llyfrgelloedd** ymhlith y goreuon yn y wlad. Roedd y Gwasanaeth yn bodloni 8 allan o 10 dangosydd allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (gyda'r 2 arall wedi'u bodloni'n rhannol).

Mae **18** o'n llyfrgelloedd nawr yn cynnig mynediad **WiFi am ddim** i drigolion.

### Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid

**Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid** wedi ymgysylltu â thros **15,000** o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (a 300+ o'r teuluoedd mwyaf anghenus). Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) i 0.97%.



Cyfanswm cynigion o **£14.5 miliwn** wedi'i sicrhau oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf ysgolion ers mis Hydref 2018. **Gan gynnwys:**

Buddsoddi **£5.1 miliwn** i ddatblygu **darpariaeth newydd gofal plant.**

**£2.4 miliwn** ar brosiectau **cynnal a chadw ysgolion.**

Grant Hwb Cymunedol **£755 mil** ar gyfer **Trac Athletau** newydd yn Oakdale.

Buddsoddi **£6.3 miliwn** i ehangu **Addysg Cyfrwng Cymraeg.**





# Hyrwyddo urddas mislif

**Mae'r cyngor wedi cymryd camau pendant yn erbyn tlodi mislif trwy ddarparu cynhyrchion hylendid rhad ac am ddim i bob merch ysgol yn y fwrdeistref sirol.**

Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi'r awdurdod i gyflenwi bocs yn llawn cynhyrchion hylendid i bob ysgol uwchradd, ysgol gynradd, canolfan ieuenctid a chanolfan gymunedol yn yr ardal.

*I godi ymwybyddiaeth o'r fenter newydd hon, cynhaliwyd cystadleuaeth arbennig mewn ysgolion i ddylunio logo newydd ar gyfer yr ymgyrch.* ***Emily Jones*** *o Ysgol Lewis i Ferched yn Ystrad Mynach oedd yn fuddugol gyda'i logo siâp calon trawiadol, a chafodd wobr o £50.*

Hefyd, mae'r cyngor wedi derbyn grant i ariannu dwy ffilm fer sy'n rhoi sylw i urddas mislif. Cafodd y rhain eu lansio'n swyddogol yn gynt yn y mis mewn premiere arbennig.



*Emily Jones (canol) yn helpu dosbarthu'r blychau i'r ysgolion.*

Dywedodd y Cynghorydd Philippa Marsden, sef Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad: "Mae'n hanfodol bod gan ein pobl ifanc fynediad i gynhyrchion hylendid benywaidd rhad ac am ddim yn ôl yr angen – ni ddylai eu rhwystro rhag mynd i'r ysgol. Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i newid y naratif o 'Dlodi Mislif' i 'Urddas Mislif' er mwyn ceisio dileu'r stigma ynghylch mislif mewn ysgolion.

Mae camau eisoes ar waith i archwilio dewisiadau hylendid mwy ecogyfeillgar sy'n cyd-fynd â'n hagenda diblastig. Os byddwn yn dewis yr opsiwn hwn, Caerffili fydd y cyngor cyntaf yn y DU i ddefnyddio'r grant i brynu cynhyrchion ecogyfeillgar/ diblastig."

## Goleuadau stryd – diweddariad

**Mae rhaglen wedi dechrau i drosi holl lampau stryd y fwrdeistref sirol i Ddeuodau Allyrru Golau ('LED') a hefyd weithredu goleuadau am ran o'r nos rhwng hanner nos a 5:30am, ac eithrio wrth ymyl cyffyrdd ac yng nghanol trefi mawr.**


Mae gan fwrdeistref sirol Caerffili gyfanswm o 27,300 o oleuadau stryd, a dechreuodd y rhaglen i drosi'r lampau i LED a gweithredu goleuadau am ran o'r nos i dros 20,000 o'r goleuadau ym mis Ebrill 2019, ac yn parhau o ward i ward.

Meddai'r Cyng. Sean Morgan, "Rydym eisoes wedi sicrhau arbedion sylweddol drwy osod lampau LED sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ar dros 11,500 o golofnau a thrwy oleuo'r strydoedd am ran o'r nos mewn ardaloedd heblaw rhai preswyl. Yn ogystal â'r arbediad ariannol, a'r un mor arwyddocaol, mae'r mesurau hyn hefyd wedi helpu lleihau ein hôl troed carbon.

"Fodd bynnag, roedd yn bwysig ein bod yn ceisio gwneud mwy fyth i leihau costau a dod yn fwy effeithlon byth o ran ynni. Mae'r rhaglen waith hon yn helpu sicrhau dull cyson o oleuo strydoedd ar draws y fwrdeistref sirol, chwarae rôl allweddol wrth gyflawni ein hymrwymiad i leihau carbon a helpu ein rhoi ar sylfaen gynaliadwy ar gyfer y dyfodol."

Ar gyfer 2018/19 yn unig, roedd y Cyngor yn wynebu cynnydd o 13.4% mewn costau ynni ar gyfer ei oleuadau stryd, a oedd yn cyfateb i tua £165,000. Roedd y cynnydd dangosol mewn costau ynni ar gyfer 2019/20 hefyd oddeutu 16% yn ychwanegol – tua £200,000 – ar ben y cynnydd o 13.4% ar gyfer 2018/19. Er ei bod yn costio cyfanswm o tua £4.2 miliwn i'w gweithredu, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael £4.1 miliwn o gyllid Salix – sef arian di-log i'r sector cyhoeddus. Mae'r rhaglen waith hon yn fodel 'buddsoddi i arbed' ac, ar ôl ad-dalu'r cyllid, rhagwelir y bydd yn arbed tua £939,840 y flwyddyn.

Yn yr un modd, bydd y gwaith hefyd yn sicrhau arbedion carbon o 2,836 tunnell y flwyddyn i'r Cyngor. Mae cyfres gynhwysfawr o gwestiynau cyffredin wedi'i datblygu, gan roi llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y gwaith. Maent ar gael yn **www.caerffili.gov.uk/GoleuadauStryd**





## Cyfraddau ailgylchu yn parhau i gynyddu

**Yn ôl ffigurau ailgylchu diweddar mae bwrdeistref sirol Caerffili unwaith eto wedi cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio – yn sgil ymdrechion trigolion 'gwyrdd' ar draws yr ardal.**

Mae ffigurau 2018/19 yn dangos bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio canran anhygoel o 68.2% o'r holl wastraff a gasglwyd. Roedd y ffigur hwn yn gynnydd o 66.7% ers y flwyddyn flaenorol.

Meddai'r Cyng. Nigel George, "Rydym yn sicr yn croesawu'r ffigurau ailgylchu diweddaraf hyn, a hoffem ddiolch yn fawr i'r holl drigolion yn ein hardal sy'n gwneud eu rhan i'n helpu ni i gyrraedd y targedau ailgylchu uchelgeisiol sy'n cael eu gosod i ni. Mae rhagor o waith i'w wneud o hyd, ond, drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn gynyddu ein cyfraddau ailgylchu ymhellach a helpu Caerffili i barhau i fod yn un o leoedd gwyrddaf Cymru."

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y cynllun ailgylchu gwastraff bwyd wythnosol. Ychwanegodd y Cyng. George, "Mae cadis gwastraff bwyd ar gael am ddim i gartrefi, a byddwn yn annog unrhyw un sydd ddim yn cymryd rhan yn y cynllun ailgylchu gwastraff bwyd wythnosol i roi cynnig arni."

**I ofyn am gadi gwastraff bwyd am ddim neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gellir ei ailgylchu, ewch i www.caerffili.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch 01443 866533**

# Ble i fynd…Pan fydd angen i chi fynd!



**Os ydych chi'n siopa, yn cymdeithasu neu'n ymweld â'r fwrdeistref sirol, cadwch lygad yn agored am arwydd newydd sy'n dangos ble mae'r cyfleusterau toiled agosaf.**

Yn ogystal â'r arwyddion a sticeri ffenestri 'Defnyddiwch ein Toiled', mae ap arbennig hefyd wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio ar ddyfeisiau symudol a ffonau clyfar sy'n galluogi defnyddwyr i fapio lleoliad eu toiled agosaf.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i fenter Llywodraeth Cymru ar ôl datblygu Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer y fwrdeistref sirol. Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i baratoi strategaeth, ond nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol.

Caeodd nifer o doiledau a redwyd gan y cyngor yn gynharach eleni oherwydd pwysau ariannol sylweddol, felly mae'r cyngor yn awr yn awyddus i dynnu sylw at yr amrywiaeth o gyfleusterau eraill sydd ar gael mewn siopau, tafarndai, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a sefydliadau eraill.

"Cymerodd y cyngor y penderfyniad anodd i gau'r rhan fwyaf o'i doiledau cyhoeddus, ond mae'n bwysig nodi bod digon o gyfleusterau amgen ar gael i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd," meddai'r Cynghorydd Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth.

"Mae trafodaethau cadarnhaol hefyd yn cael eu cynnal i ailagor rhai o'r safleoedd, yn sgil diddordeb gan drydydd partïon. Enghraifft o hyn yw'r Gymdeithas Gyrwyr Tacsis yng Nghaerffili sydd wedi cynnig cymryd cyfrifoldeb dros redeg y toiledau wrth ymyl yr orsaf drenau. Gobeithio y byddwn yn gweld cyhoeddiadau cadarnhaol tebyg ar gyfer y safleoedd eraill yn y dyfodol agos."

**www.llyw.cymru/toiledau**




# Mae angen llywodraethwyr arnom!

**Oes gennych awydd ennill profiad gwirfoddoli gwerthfawr, dysgu sgiliau newydd a gwneud gwir wahaniaeth yn eich cymuned leol?**

Os felly, dylech ystyried bod yn llywodraethwr ysgol a chael cyfle i lywio addysg plant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae gan bob ysgol Gorff Llywodraethu sy'n gweithio'n agos gyda'r Pennaeth i osod cyfeiriad strategol yr ysgol a monitro perfformiad. Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnwys aelodau'r gymuned leol, rhieni, athrawon, staff a chynrychiolwyr y cyngor. Ar hyn o bryd, mae sawl swydd wag ar gyfer Llywodraethwyr mewn ysgolion ledled yr ardal, felly rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i gymryd rhan.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi a Datblygu Llywodraethwyr ar 01443 863155**



# SBARDUN CYMUNEDOL



**A wyddoch fod gan ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus y pŵer i sbarduno adolygiad o gamau a gymerwyd gan asiantaethau fel yr heddlu, y cyngor neu eu darparwr tai?**

Cafodd y **'Sbardun Cymunedol'** ei gyflwyno gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Ei bwrpas yw rhoi cyfle i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus ofyn am adolygiad os ydynt yn teimlo nad oes digon wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'u pryderon.

Yn y lle cyntaf, dylid rhoi gwybod i'r heddlu, y cyngor neu'ch darparwr tai am ymddygiad gwrthgymdeithasol (os nad yw'n eiddo preifat). Er mwyn cyrraedd y trothwy ar gyfer Sbardun Cymunedol, mae'n rhaid bod ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau casineb wedi cael eu hadrodd o leiaf 3 gwaith, yn ymwneud â digwyddiadau ar wahân, yn ystod y 6 mis diwethaf. Er mwyn i'r Sbardun Cymunedol gael ei weithredu, rhaid gwneud adroddiadau o fewn mis i'r digwyddiad ddigwydd er mwyn caniatáu ymateb amserol digonol. Rhaid gwneud y cais i ddefnyddio'r Sbardun Cymunedol o fewn chwe mis i ddigwyddiad yr adroddwyd amdano.

Os ydych yn credu bod eich cwyn yn cwrdd â'r meini prawf am Sbardun Cymunedol, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais. Cewch ffurflen i'ch helpu i restru manylion yr adroddiadau yr ydych wedi'u gwneud fel y gallwn ddechrau ein hymholiadau gyda'r asiantaethau perthnasol.

Safer Caerphilly County Borough / Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach

Cysylltwch â ni Uned Diogelwch Cymunedol CBSC: **01443 811307**
neu e-bostiwch : **caerffilisaffach@caerffili.gov.uk**

# Hwyl heulog yr haf!

***Bydd ymwelwyr yn cael cyfle unwaith eto i gael blas ar hwyl a heulwen dau o ddigwyddiadau haf mwyaf poblogaidd yr ardal dros yr wythnosau nesaf.***

## Parti Traeth Coed Duon

### Dydd Sadwrn 29 Mehefin 9am – 6pm

Wedi'i drefnu gan Gyngor Tref Coed Duon, gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, bydd rhywbeth i blesio ymwelwyr o bob oedran, wrth i ganol tref Coed Duon drawsnewid yn draeth trefol, ynghyd â gemau, cerddoriaeth fyw ac adloniant stryd.

Bydd amrywiaeth o stondinau ar hyd y stryd fawr yn gwerthu bwyd blasus a chrefftau, ac yn cynnig gwledd o hwyl ac adloniant i'r ymwelwyr ei mwynhau. Bydd parêd Carnifal Coed Duon yn dechrau am ganol dydd yng Ngorsaf Fysiau Coed Duon.



## Y Caws Mawr

*Noddir gan Ron Skinner & Sons*

Ron Skinner & Sons ESTABLISHED 1968

### Dydd Gwener 26 – Dydd Sul 28 Gorffennaf

Y Caws Mawr ar ei newydd wedd! Bydd cynllun newydd ac awyrgylch newydd i'r ŵyl eleni, gyda gwerthwyr bwyd stryd, traeth trefol, ardal bar gyda cherddoriaeth fyw, tair neuadd fwyd anferthol, marchnad gaws, arddangosiadau coginio byw a bydd ein prif noddwr, Ron Skinner & Sons, yn cynnal arddangosfa wych o geir ar y safle am y penwythnos. Bydd mynediad AM DDIM i Gastell Caerffili ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Dewch i'n noson agoriadol ddydd Gwener 26 Gorffennaf o 3pm ymlaen a mwynhau ras flynyddol y Caws Mawr, reidiau ffair a heb anghofio'r sioe dân gwyllt fawreddog am 10pm. Mae'r rhaglen lawn (gan gynnwys stondinau a neuaddau bwyd) yn dechrau am 10am ddydd Sadwrn 27 a dydd Sul 28 Gorffennaf. **www.bigcheesecaerphilly.co.uk**

**Oriau agor:** Dydd Gwener 3pm - 10.15pm ■ Dydd Sadwrn 10am - 9pm ■ Dydd Sul 10am - 8pm




*Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Ymwelwyr Caerffili ar* ***029 2088 0011*** *neu ewch i* ***www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau***

# Cyhoeddi mai Julian yw'r Maer

**Cyhoeddwyd y Maer newydd, sef y Cynghorydd Julian Simmonds, yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor fis diwethaf.**



Dywedodd y Cyng. Simmonds, "Mae'n fraint ac yn anrhydedd i wasanaethu fel Maer y fwrdeistref sirol, ac rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chynifer o drigolion â phosibl yn yr holl achlysuron dinesig a ddaw yn y flwyddyn i ddod."

Cafodd Julian ei ethol mewn is-etholiad yn ward Crosskeys yn 2015, ac mae wedi parhau i gynrychioli trigolion Crosskeys byth ers hynny. Hefyd, Julian oedd Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y llynedd.

Mae Julian wedi dewis cefnogi dwy elusen yn ystod ei flwyddyn fel Maer, sef Gweithredu dros Blant a Liver4Life. Mae'n gobeithio codi cymaint o arian â phosibl er budd y ddau achos teilwng iawn hyn.

Y Dirprwy Faer yw'r Cynghorydd Carol Andrews, sy'n cynrychioli ward Bargoed.

# Cynllun draenio gwyrdd yn llifo o'r diwedd

**Mae gan Gaerffili rôl flaenllaw yn y gwaith i wella sut mae draenio a dŵr wyneb yn cael eu rheoli ar draws y rhanbarth, diolch i ddull cydweithredol newydd.**

Cyflwynwyd deddfwriaeth draenio newydd sylweddol ym mis Ionawr 2019, sy'n mynnu bod gan bob datblygiad newydd o fwy nag un tŷ (neu le mae'r ardal adeiladu yn $100m^2$ neu fwy) seilwaith draenio cynaliadwy i reoli llif dŵr wyneb ac ansawdd dŵr ar y safle. Rhaid i'r holl systemau draenio dŵr wyneb newydd gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gorfodol. Hefyd, rhaid i'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy gytuno ar y cynlluniau.

Mae Cyngor Caerffili yn cael ei ystyried yn brif awdurdod y Corff Cymeradwyo yn y rhanbarth hwn, ac mae eisoes wedi cynnal trafodaethau dechreuol gyda chynghorau lleol eraill i ddarparu cyngor a chymorth technegol yn ôl yr angen. "Mae'n braf gweld bod Caerffili ar flaen y gad unwaith eto, ac rydym bob amser yn hapus i weithio gyda'n cymdogion i wella gwasanaethau er lles pawb," meddai'r Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

**Ewch i www.caerffili.gov.uk a chwiliwch am 'draenio cynaliadwy'**





## Rhifau Defnyddiol
## Useful Numbers

**PRIF SWITSFWRDD**
**MAIN SWITCHBOARD**
☎ 01443 815588

**Minicom** Minicom
☎ 01443 873626

**Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:**
Emergency Number for Council Services:
☎ 01443 875500
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**
Children's Social Services
☎ 0808 100 1727

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**
Adults' Social Services
☎ 0808 100 2500

**BalchderStryd** StreetPride
☎ 01443 866566

**Cyngor i Ddefnyddwyr**
Consumer Advice
☎ 03454 040506

**Ymholiadau Treth y Cyngor**
Council Tax Enquiries
☎ 01443 863002

**Ailgylchu Dodrefn**
Furniture Recycling
☎ 01685 846830

**Bathodyn Glas** Blue Badge
☎ 01443 866571

**Budd-daliadau Tai /Treth y Cyngor**
Housing & Council Tax Benefits
Ceisiadau Newydd New Claims:
☎ 01443 866567
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ 01443 864099

*Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.*

*We welcome calls in Welsh.*

# Digwyddiadau / What's ON

## Parti Traeth Coed Duon
## Blackwood Beach Party
### Dydd Sadwrn 29 Mehefin
### Saturday 29 June, 9am - 6pm

*Wedi'i drefnu gan Gyngor Tref Coed Duon a'i gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae ymwelwyr o bob oedran yn cael hwyl wrth i Ganol Tref Coed Duon droi'n draeth trefol, gan gynnwys difyrion, cerddoriaeth fyw ac adloniant stryd.*

*Bydd amrywiaeth o stondinau ar hyd y stryd fawr ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin yn gwerthu bwyd blasus a chrefftau, gan gynnig gwledd o hwyl ac adloniant i ymwelwyr eu mwynhau.*

*Organised by Blackwood Town Council and supported by Caerphilly County Borough Council, visitors of all ages are in for a treat, as Blackwood Town Centre turns into an urban beach, complete with amusements, live music and street entertainment.*

*A variety of stalls will line the high street on Saturday 29th June, selling delicious food and crafts, offering a feast of fun and entertainment for visitors to enjoy.*

Gŵyl y CAWS MAWR · The BIG CHEESE Festival

### Dydd Gwener 26 - Dydd Sul 28 Gorffennaf
### Friday 26 - Sunday 28 July
**Adfywiwyd, Adnewyddwyd, Ail-ddarganfuwyd**
**Refreshed, Rejuvenated, Rediscovered**

*Ail-ddarganfyddwch Y Caws Mawr! Bydd gan ŵyl eleni wedd newydd a theimlad newydd gyda Gwerthwyr Bwyd Stryd, Traeth Trefol Anferth, Ardal Lolfa Fyw, TAIR Neuadd Fwyd Anferth ac Arddangosiadau Coginio Byw. Mae Castell Caerffili, yr ail Gastell fwyaf ym Mhrydain, yn dal i fod yn seren yr ŵyl gyda mynediad am ddim dros y penwythnos. Gyda rhaglen o adloniant fydd yn ymestyn o fore hyd nos, bydd yna ail-greu canoloesol o fewn tir y Castell, cerddoriaeth fyw a rhaglen lawn yn Y Neuadd Fawr.*

*Rediscover The Big Cheese! This year's new look festival will have a new layout and new feel with Street Food Vendors, Giant Urban Beach, Live Lounge Bar Area, THREE Huge Food Halls and Live Cookery Demonstrations. Caerphilly Castle, the second largest Castle in Britain still remains the star of the festival with free entry all weekend. With an entertainment program that'll stretch from morning until evening, there'll be medieval re-enactments within the Castle grounds, live music and a packed program in The Great Hall.*

## Gŵyl 'Brotherhood of the Black Pirate' 2019
## The Brotherhood of the Black Pirate Festival 2019
### Dydd sadwrn 31 Awst - Dydd Sul 1 Medi
### Saturday 31 August - Sunday 1 September, 10am - 5pm

*Dewch i wisgo i fyny, ymarferwch eich cerddediad môr-leidr a dewch draw am benwythnos llawn hwyl ac adloniant i'r teulu cyfan.*

*Get dressed up, practice your pirate swagger and come along for a weekend full of fun and entertainment for all the family.*

***www.brotherhood-of-the-black.co.uk***



## Ffiliffest 2019
### Dydd Sadwrn 29 Mehefin
### Saturday 29 June 10am - 6pm

*Mae Ffiliffest, gŵyl gyffrous y celfyddydau, iaith a cherddoriaeth Gymreig yn dychwelyd i Gastell Caerffili'r mis nesaf. Mae Menter Caerffili wedi trefnu'r digwyddiad hwn i ddathlu a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg a thraddodiadau yn y gymuned.*

*Bydd y diwrnod llawn gweithgareddau hwn, mewn cydweithrediad â CADW, yn cynnwys gweithgareddau i bobl o bob oedran gan gynnwys gweithdai cerddoriaeth fyw, celf a chrefft a chwaraeon, stondinau gyda busnesau lleol yn gwerthu eu cynnyrch, cymeriadau S4C, Cosplay a phlant o ysgolion cynradd lleol yn perfformio dawnsiau gwerin draddodiadol.*

*Ffiliffest, the exciting Welsh language festival of arts, language and music returns to Caerphilly Castle. Menter Caerffili have organised this event to celebrate and support the use of Welsh language and traditions in the community.*

*This action packed day will have activities for all ages including live music, arts and crafts and sporting workshops, stalls with local businesses selling their produce, S4C characters, cosplay and children from local primary schools performing traditional folk dances.*

***www.mentercaerffili.cymru***




**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk**

**I gael gwybodaeth am sgyrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068**

**www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau • www.caerphilly.gov.uk/events**

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk**

**For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068**

# DEWIS CYMRU

Gwefan yw **Dewis Cymru** sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant. Dyma'r lle GORAU i bobl fynd am wybodaeth neu gyngor am lesiant – boed eu llesiant eu hun neu lesiant aelod o'r teulu neu ffrind. Mae ganddo wybodaeth sy'n gallu eich helpu i feddwl am beth sy'n bwysig i chi, yn ogystal â gwybodaeth am bobl a gwasanaethau yn eich ardal chi sy'n gallu eich helpu gyda'r pethau sy'n bwysig i chi.

**Dewis Cymru** is a website that aims to help people with their well-being. It's THE place to go for people who want information or advice about well-being – whether that's their own well-being or the well-being of a family member or friend. It's got information that can help you think about what matters to you, and it's also got information about people and services in your area that can help you with the things that matter to you.

**www.Dewis.Cymru**
Cael dewis a chymryd rheolaeth

**www.Dewis.Wales**
Have choice and take control

# Rhyddhad Ardrethi Manwerthu ■ Retail Rate Relief

**Mae'r cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu a'r Stryd Fawr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20.**

Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth i fusnesau manwerthu cymwys trwy gynnig gostyngiad hyd at £2,500 ar y bil ardrethi busnes fesul eiddo. Gall busnesau'r stryd fawr a safleoedd manwerthu, fel siopau, bwytai a chaffis, sydd â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai, elwa ar y cynllun hwn.

Yn ddiweddar, mae'r rhyddhad ardrethi wedi'i ddyfarnu'n awtomatig i'r busnesau hynny a dderbyniodd ryddhad o'r fath y llynedd. Mae Tîm Ardrethi Busnes y cyngor wrthi'n ysgrifennu at fusnesau nad ydynt wedi derbyn y rhyddhad hwn eto, a allai fod yn gymwys, i'w gwahodd i ymgeisio dan y cynllun eleni. Mae'r ffurflen gais yn hawdd i'w llenwi, a dim ond ychydig gwestiynau byr sydd ynddi.



**The council has adopted Welsh Government's High Street and Retail Rate Relief Scheme for 2019/20.**

The scheme provides support for eligible retail businesses by offering up to £2,500 discount on the business rate bill per property. Occupied high street businesses and retail premises, such as shops, restaurants and cafes, with a rateable value of £50,000 or less may benefit from this scheme.

The rate relief has recently been automatically awarded to those businesses that received this type of relief last year. The council's Business Rate Team is now writing to businesses yet to receive this relief who may be eligible, inviting them to apply under this year's scheme. The application form is easy to complete and only has a few short questions.